**Ymgynghorydd Iechyd a Ffitrwydd**

**GRADD 9**
**37 awr yr wythnos**
**CYFLOG: o £27,741 – £29,577**

**Parhaol**
**(Bydd pob swydd yn destun gwerthuso swydd)**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn penodi Cynghorydd Iechyd a Ffitrwydd i ymuno â'n Huned Iechyd Galwedigaethol ym Mhont-y-clun.

Byddwch chi'n cynorthwyo'r Uwch Gynghorydd Iechyd a Ffitrwydd i ddarparu gwasanaeth iechyd a ffitrwydd proffesiynol o ansawdd dda. Byddwch chi'n cael cyfle i weithio'n agos gyda'r Uwch Gynghorydd Iechyd a Ffitrwydd, Meddygon Iechyd Galwedigaethol, Nyrsys Iechyd Galwedigaethol, tîm gweinyddol a darparwyr allanol gwasanaethau iechyd a ffitrwydd.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus radd Baglor mewn pwnc sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth chwaraeon / ymarfer corff a oedd yn cynnwys astudio ffisioleg ymarfer corff a phrofi.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. I gael mwy o wybodaeth, mae croeso i gysylltu â Gareth Green, Uwch Gynghorydd Iechyd a Ffitrwydd - Iechyd Galwedigaethol: g-green@decymru.tan.gov.uk neu ffonio 01443 232365.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: y 27 Orffennaf 2021 am 12:00 ganol dydd.**

Gellir lawr lwytho pecyn cais gan gynnwys y Fanyleb Person a'r Swydd-Ddisgrifiad o Adran Swyddi Cyfredol Gwefan Gwasanaeth Tân & Achub De Cymru: www.decymru-tan.gov.uk.

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: personel@decymru-tan.gov.uk

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

